**Y Grŵp Trawsbleidiol ar Strôc: Galwad am Dystiolaeth**

Mae’r Grŵp Trawsbleidiol ar Strôc (GTS) yn cynnal ymchwiliad i weithrediad y Cynllun Cyflenwi Strôc Llywodraeth Cymru 2017-2020. Fel rhan o hyn, mae'r GTS yn gwahodd y rhai sy'n gweithio neu sydd â diddordeb mewn strôc i gyflwyno tystiolaeth ar eu barn ar y pwnc.

Nod yr ymchwiliad yw edrych ar weithrediad y Cynllun i ddeall pa gynnydd a wnaed, pa rwystrau a allai fod wedi atal cynnydd a beth y gellir ei ddysgu o hyn, gan gynnwys sut y dylai'r dull strategol cenedlaethol o strôc edrych yn y dyfodol. Bydd yr ymchwiliad yn cynhyrchu adroddiad, yn nodi argymhellion ar gyfer y dyfodol, ym mis Mawrth 2020.

Y cylch gorchwyl ar gyfer yr ymchwiliad yw:

- Pa gynnydd a wnaed o ran gweithredu'r ymrwymiadau sydd wedi'u cynnwys yng Nghynllun Cyflenwi Strôc Llywodraeth Cymru 2017-2020 sy'n ymwneud ag atal, darparu gofal cyflym ac effeithiol a bywyd ar ôl strôc?
- A yw dulliau strategol cenedlaethol a lleol o weithredu wedi bod yn llwyddiannus?
- Pa systemau a dulliau sydd wedi llwyddo i alluogi ymrwymiadau i gael eu gweithredu'n llawn?
- Pa rwystrau sy'n bodoli a allai fod wedi cyfrannu at beidio â gweithredu unrhyw ymrwymiadau'n llawn?
- A ddylid disodli'r Cynllun Cyflenwi Strôc? Os na, beth ddylid ei ddatblygu yn ei le i sicrhau bod strôc yn parhau i fod yn ‘flaenoriaeth Weinidogol haen un’?

Mae gan y GTS ddiddordeb ym marn y rhai sy'n gweithio neu sydd â diddordeb mewn strôc ar y cwestiynau hyn, sut mae'r Cynllun Cyflenwi Strôc wedi effeithio ar unrhyw arbenigedd rydych chi'n gweithio ynddo ac a yw'r Cynllun yn gwella gwasanaethau i gleifion a goroeswyr strôc yn ogystal â chyflawni'r 'Gweledigaeth Strôc' sydd ynddo.

Sylwch, mae galwad ar wahân am dystiolaeth wedi'i thargedu at waith byrddau iechyd hefyd wedi'i chyhoeddi, a bydd arolwg ar gyfer goroeswyr a gofalwyr strôc hefyd yn cael ei gyhoeddi.

Mae croeso i ymatebion gan unrhyw sefydliad sy'n gweithio neu sy’n cynrychioli'r rhai sy'n gweithio ym maes strôc, yn gweithio gyda goroeswyr strôc, gofalwyr neu sydd â diddordeb arall mewn strôc. Mae croeso i ymatebion yng Nghymraeg a Saesneg.

Dylid e-bostio tystiolaeth i: cpgcymru@stroke.org.uk. Y dyddiad cau ar gyfer tystiolaeth yw 13 Medi 2019. Gellir defnyddio gwybodaeth, gan gynnwys dyfyniadau, o'r holl ymatebion yn yr adroddiad terfynol. Os byddai'n well gennych gyfrannu'n ddienw yna cysylltwch â Matt i drafod y manylion isod.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau, neu os hoffech gael unrhyw wybodaeth bellach, cysylltwch â Matt O'Grady, Swyddog Polisi, Gwybodaeth ac Ymgyrchoedd ar gyfer y Gymdeithas Strôc ar 02920 524407 neu matt.ogrady@stroke.org.uk.